

Sunday 27th July 2025
+ The Sixth Sunday after Trinity

The collect of the day

Merciful God, you have prepared for those who love you such good things as pass our understanding : pour into our hearts such love toward you that we, loving you in and above all things, may obtain your promises, which exceed all that we can desire; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Genesis
(18.20-32)

The Lord appeared to Abraham by the oaks of Mamre and said, 'How great is the outcry against Sodom and Gomorrah and how very grave their sin! I must go down and see whether they have done altogether according to the outcry that has come to me; and if not, I will know.'

So the men turned from there, and went towards Sodom, while Abraham remained standing before the Lord. Then Abraham came near and said, 'Will you indeed sweep away the righteous with the wicked? Suppose there are fifty righteous within the city; will you then sweep away the place and not forgive it for the fifty righteous who are in it? Far be it from you to do such a thing, to slay the righteous with the wicked, so that the righteous fare as the wicked! Far be that from you! Shall not the Judge of all the earth do what is just?'

And the Lord said, 'If I find at Sodom fifty righteous in the city, I will forgive the whole place for their sake.'

Abraham answered, 'Let me take it upon myself to speak to the Lord, I who am but dust and ashes. Suppose five of the fifty righteous are lacking? Will you destroy the whole city for lack of five?'

And he said, 'I will not destroy it if I find forty-five there.'

Again he spoke to him, 'Suppose forty are found there.'

He answered, 'For the sake of forty I will not do it.'

Then he said, 'Oh do not let the Lord be angry if I speak. Suppose thirty are found there.'

He answered, 'I will not do it, if I find thirty there.'

He said, 'Let me take it upon myself to speak to the Lord. Suppose twenty are found there.'

He answered, 'For the sake of twenty I will not destroy it.'

Then he said, 'Oh do not let the Lord be angry if I speak just once more. Suppose ten are found there.'

He answered, 'For the sake of ten I will not destroy it.'

The Psalm

I will give thanks to you, O Lord, with my / whole / heart: before the gods will / I sing / praise to / you. I will bow down towards your holy temple and praise your name, because of your / love and / faithfulness: for you have glorified your name * / and your / word above / all things. In the day that I called to you, you / answered / me: you / put new / strength in my / soul.

All the kings of the earth shall / praise you, O / Lord: for they have / heard the / words of your / mouth. They shall sing of the / ways of the / Lord: that great is the / glory / of the / Lord. Though the Lord be high, he watches / over the / lowly: as for the proud, he re/gards them / from a/far.

Though I walk in the midst of trouble, / you • will pre/serve me: you will stretch forth your hand against the fury of my enemies; / your right / hand will / save me. The Lord shall make good his / purpose / for me: your loving-kindness, O Lord, endures

for ever; for/sake • not the / work of your / hands.

The reading from Colossians
(2.6-15)

Brothers and sisters, as you therefore have received Christ Jesus the Lord, continue to live your lives in him, rooted and built up in him and established in the faith, just as you were taught, abounding in thanksgiving.

See to it that no one takes you captive through philosophy and empty deceit, according to human tradition, according to the elemental spirits of the universe, and not according to Christ. For in him the whole fullness of deity dwells bodily, and you have come to fullness in him, who is the head of every ruler and authority.

In him also you were circumcised with a spiritual circumcision, by putting off the body of the flesh in the circumcision of Christ; when you were buried with him in baptism, you were also raised with him through faith in the power of God, who raised him from the dead. And when you were dead in trespasses and the uncircumcision of your flesh, God made you alive together with him, when he forgave us all our trespasses, erasing the record that stood against us with its legal demands. He set this aside, nailing it to the cross. He disarmed the rulers and authorities and made a public example of them, triumphing over them in it.

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(11.1-13)

Jesus was praying in a certain place, and after he had finished, one of his disciples said to him, 'Lord, teach us to pray, as John taught his disciples.'

He said to them, 'When you pray, say: Father, hallowed be your name. Your kingdom come. Give us each day our daily bread. And forgive us our sins, for we

ourselves forgive everyone indebted to us. And do not bring us to the time of trial.'

And he said to them, 'Suppose one of you has a friend, and you go to him at midnight and say to him, "Friend, lend me three loaves of bread; for a friend of mine has arrived, and I have nothing to set before him." And he answers from within, "Do not bother me; the door has already been locked, and my children are with me in bed; I cannot get up and give you anything." I tell you, even though he will not get up and give him anything because he is his friend, at least because of his persistence he will get up and give him whatever he needs.

'So I say to you, Ask, and it will be given to you; search, and you will find; knock, and the door will be opened for you. For everyone who asks receives, and everyone who searches finds, and for everyone who knocks, the door will be opened. Is there anyone among you who, if your child asks for a fish, will give a snake instead of a fish? Or if the child asks for an egg, will give a scorpion?'

'If you then, who are evil, know how to give good gifts to your children, how much more will the heavenly Father give the Holy Spirit to those who ask him!'

The collect after communion

God of our pilgrimage, you have led us to the living water : refresh and sustain us as we go forward on our journey, in the name of Jesus Christ our Lord. AMEN



Dydd Sul 27^{ain} Gorffennaf 2025 + Y Chweched Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Dduw trugarog, darperaist i'r rhai sy'n dy garu y fath bethau daionus sydd uwchlaw ein deall: tywallt yn ein calonnau'r fath gariad tuag atat, fel y bo i ni, sy'n dy garu uwchlaw pob dim, allu derbyn dy addewidion, sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyfu; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Genesis (18.20-32)

Yna dywedodd yr ARGLWYDD, "Am fod y gŵyn yn erbyn Sodom a Gomorra yn fawr, a'u pechod yn ddrwg iawn, disgynnaf i weld a wnaethant yn hollol yn ôl y gŵyn a ddaeth ataf; os na wnaethant, caf wybod."

Pan drodd y gwŷr oddi yno a mynd i gyfeiriad Sodom, yr oedd Abraham yn dal i sefyll gerbron yr ARGLWYDD. A nesaodd Abraham a dweud, "A wyt yn wir am ddifa'r cyfiawn gyda'r drygionus? Os ceir hanner cant o rai cyfiawn yn y ddinas, a wyt yn wir am ei dinistrio a pheidio ag arbed y lle er mwyn yr hanner cant cyfiawn sydd yno? Na foed iti wneud y fath beth, a lladd y cyfiawn gyda'r drygionus, nes bod y cyfiawn yr un fath â'r drygionus. Na ato Duw! Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn?"

A dywedodd yr ARGLWYDD, "Os caf yn ninas Sodom hanner cant o rai cyfiawn, arbedaf yr holl le er eu mwyn."

Atebodd Abraham a dweud, "Dyma fi wedi beiddio llefaru wrth yr ARGLWYDD, a minnau'n ddim ond llwch a lludw. Os bydd pump yn eisiau o'r hanner cant o rai cyfiawn, a ddinistri di'r holl ddinas oherwydd pump?"

Dywedodd yntau, "Os caf yno bump a deugain, ni ddinistriaf hi."

Llefarodd eto wrtho a dweud, "Beth os ceir deugain yno?"

Dywedodd yntau, "Nis gwnaf er mwyn y deugain."

Yna dywedodd, "Na ddigied yr ARGLWYDD os llefaraf. Ond beth os ceir yno ddeg ar hugain?"

Dywedodd yntau, "Nis gwnaf os caf yno ddeg ar hugain."

Yna dywedodd, "Dyma fi wedi beiddio llefaru wrth yr ARGLWYDD. Beth os ceir yno ugain?"

Dywedodd yntau, "Ni ddinistriaf hi er mwyn yr ugain."

Yna dywedodd, "Peidied yr ARGLWYDD â digio wrthyf am lefaru y tro hwn yn unig. Beth os ceir yno ddeg?"

Dywedodd yntau, "Ni ddinistriaf hi er mwyn y deg."

Y Salm

Clodforaf di â'm holl galon, canaf fawl i ti yng ngŵydd duwiau. Ymgrymaf tuag at dy deml sanctaidd, a chlodforaf dy enw am dy gariad a'th ffyddlondeb, oherwydd dyrcheffaist dy enw a'th air uwchlaw popeth. Pan elwais arnat, atebaist fi, a chynyddaist fy nerth ynof.

Bydded i holl frenhinoedd y ddaear dy glodfori, O ARGLWYDD, am iddynt glywed geiriau dy enau; bydded iddynt ganu am ffyrdd yr ARGLWYDD, oherwydd mawr yw gogoniant yr ARGLWYDD. Er bod yr ARGLWYDD yn uchel, fe gymer sylw o'r isel, ac fe ddarostwng y balch o bell.

Er imi fynd trwy ganol cyfyngder, adfywiaist fi; estynnaist dy law yn erbyn llid fy ngelynion, a gwaredaist fi â'th ddeheulaw. Bydd yr ARGLWYDD yn gweithredu ar fy rhan. O ARGLWYDD, y mae dy gariad hyd byth; paid â gadael gwaith dy ddwylo.

Darlleniad o Colosiaid (2.6-15)

Felly, gan eich bod wedi derbyn Crist Iesu, yr Arglwydd, dylech fyw ynddo ef.

Cadwch eich gwreiddiau ynddo, gan gael eich adeiladu ynddo, a'ch cadarnhau yn y ffydd fel y'ch dysgwyd, a bod yn ddibrin eich diolch.

Gwylwch rhag i neb eich cipio i gaethiwed drwy athroniaeth a gwag hudoliaeth yn ôl traddodiad dynol, yn ôl ysbrydion elfennig y cyfanfyd, ac nid yn ôl Crist. Oherwydd ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo'n gorfforol, ac yr ydych chwithau wedi eich dwyn i gyflawnder ynddo ef. Y mae ef yn ben ar bob tywysogaeth ac awdurdod.

Ynddo ef hefyd yr enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist. Claddwyd chwi gydag ef yn eich bedydd, ac yn y bedydd hefyd fe'ch cyfodwyd gydag ef drwy ffydd yn nerth Duw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw. Ac er eich bod yn feirw yn eich camweddau a'ch cnawd dienwaededig, fe'ch gwnaeth chwi yn fyw gydag ef. Y mae wedi maddau inni ein holl gamweddau, ac wedi diddymu'r ddogfen oedd yn ein rhwymo i'r gofynion a'n gwnâi ni yn ddyledwyr. Y mae wedi ei bwrw hi o'r neilltu; fe'i hoeliodd ar y groes. Diarfogodd y tywysogaethau a'r awdurdodau, a'u gwneud yn sioe gerbron y byd yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth arnynt ar y groes.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc (11.1-13)

Yr oedd ef yn gweddïo mewn rhyw fan, ac wedi iddo orffen dywedodd un o'i ddisgyblion wrtho, "Arglwydd, dysg i ni weddïo, fel y dysgodd Ioan yntau i'w ddisgyblion ef."

Ac meddai wrthynt, "Pan weddïwch, dywedwch: 'Dad, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; dyro inni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol; a maddau inni ein pechodau, oherwydd yr ydym ninnau yn maddau i bob un sy'n troseddu yn ein herbyn; a phaid â'n dwyn i brawf.'"


Yna meddai wrthynt, "Pe bai un ohonoch yn mynd at gyfaill ganol nos ac yn dweud wrtho, 'Gyfaill, rho fenthyg tair torth imi, oherwydd y mae cyfaill imi wedi cyrraedd acw ar ôl taith, ac nid oes gennyf ddim i'w osod o'i flaen'; a phe bai yntau yn ateb o'r tu mewn, 'Paid â'm blino; y mae'r drws erbyn hyn wedi ei folltio, a'm plant gyda mi yn y gwely; ni allaf godi i roi dim iti', rwy'n dweud wrthyh, hyd yn oed os gwrthyd ef godi a rhoi rhywbeth iddo o achos eu cyfeillgarwch, eto oherwydd ei daerni digywilydd fe fydd yn codi ac yn rhoi iddo gymaint ag sydd arno ei eisiau.

"Ac yr wyf fi'n dweud wrthyh: gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Oherwydd y mae pawb sy'n gofyn yn derbyn, a'r sawl sy'n ceisio yn cael, ac i'r un sy'n curo agorir y drws. Os bydd mab un ohonoch yn gofyn i'w dad am bysgodyn, a rydd ef iddo sarff yn lle pysgodyn? Neu os bydd yn gofyn am wy, a rydd ef iddo ysgorpiion?"

"Am hynny, os ydych chwi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd y Tad nefol yr Ysbryd Glân i'r rhai sy'n gofyn ganddo."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw ein pererindod, tywysaist ni at y dŵr bywiol : adfywia a chynnal ni wrth inni fynd ymlaen ar ein taith, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Dwygiedig 2004 – Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cadwir pob hawl.